Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Gwella llesiant gan ddefnyddio dyfeisgarwch cymunedol

Esbonio beth yw dyfeisgarwch cymunedol, a sut i'w ddefnyddio i wella llesiant cymunedau ac unigolion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Mai 2024

Diweddariad olaf: 18 Mehefin 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/gwella-llesiant-gan-ddefnyddio-dyfeisgarwch-cymunedol am y fersiwn diweddaraf.

**Esbonio beth yw dyfeisgarwch cymunedol, a sut i'w ddefnyddio i wella llesiant cymunedau ac unigolion.**

## Beth yw dyfeisgarwch cymunedol?

Dyfeisgarwch cymunedol yw’r term am ddefnyddio'r cryfderau o fewn cymunedau, gan gynnwys eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u perthnasoedd â phobl, i gefnogi ein gilydd mewn ffyrdd cadarnhaol ac ymarferol.

Mae dyfeisgarwch cymunedol yn tynnu gwahanol rannau o'r gymuned ynghyd i ddod o hyd i atebion neu i roi cymorth.

Mae'n ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae'r person yn ymwneud â'r ffordd y caiff gwasanaethau neu atebion eu cynllunio.

Mae hynny'n golygu eu bod yn cael y gefnogaeth briodol ar y lefel briodol.

Mae hefyd yn seiliedig ar le, oherwydd trwy ddeall yr hyn sydd ei angen ar bob person, rydyn ni’n dod i ddeall beth sydd ei angen ar y gymuned.

Rydyn ni’n gweithio yn y ffordd hon oherwydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n dweud:

- pobl sydd wrth wraidd y system ac mae ganddyn nhw lais cyfartal yn y gefnogaeth y maen nhw’n ei derbyn
- bydd gwasanaethau'n gweithio gyda phobl i gynllunio gwasanaethau a’u gweithredu
- bydd gwasanaethau'n ceisio sicrhau bod pobl yn cael y cymorth priodol ar yr adeg briodol

- dylai gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau yng Nghymru gefnogi'r saith nod llesiant, sy'n cynnwys:
  - Cymru lewyrchus
  - Cymru gydnerth
  - Cymru o gymunedau cydlynus
  - Cymru iachach.

## Sut mae dyfeisgarwch cymunedol yn gwella llesiant?

Pan fydd sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd, gallant ddefnyddio dyfeisgarwch cymunedol i gefnogi llesiant. Mae hyn oherwydd bod dyfeisgarwch cymunedol:

- yn helpu cymunedau i gael y lefel briodol o gefnogaeth, oherwydd bod sefydliadau'n gofyn iddynt beth sy’n bwysig iddynt a beth sydd ei angen arnynt
- yn arwain at atebion cynaliadwy a mwy llwyddiannus, gan ei fod yn cynnwys pobl wrth gynllunio gwasanaethau neu atebion, ac yn defnyddio eu cryfderau
- yn rhoi perchnogaeth o'r gwasanaeth neu'r ateb i bobl a'u cymunedau, fel eu bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol tuag ato ac yn fwy tebygol o'i hyrwyddo
- yn gallu rhoi cyfle i bobl ddysgu sgiliau newydd neu ennill profiad mewn pethau sydd o ddiddordeb iddyn nhw ac sydd o fudd i'r gymuned
- yn arwain at ffyrdd effeithlon o weithio, sy’n golygu atebion neu wasanaethau cydgysylltiedig i gymunedau.

## Dechrau arni gyda dyfeisgarwch cymunedol

Mae dyfeisgarwch cymunedol yn ymwneud â gweithio gyda sefydliadau eraill i wella llesiant.

Mae hyn yn cynnwys sefydliadau o wahanol sectorau, sy'n gweithio gyda gwahanol gymunedau.

## Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar

Mae'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar yn fforwm cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar les cymunedol.

Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod bob mis i ddod ag ymchwil ac ymarfer ynghyd, a dod o hyd i ffyrdd o ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae gan y bartneriaeth gymysgedd o aelodau statudol ac aelodau o'r trydydd sector. Gall unrhyw sefydliadau yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn datblygu dyfeisgarwch a llesiant cymunedol ddod yn bartner.

## Y fframwaith Gweithio gyda chymunedau

Mae'r fframwaith hwn yn ganllaw i ddangos i sefydliadau sut i gefnogi llesiant cymunedol.

Cafodd ei lunio gan gymunedau, ac mae'n seiliedig ar yr hyn sydd wedi gweithio i'r cymunedau hynny.

Mae'n esbonio'r egwyddorion ar gyfer gweithio gyda chymunedau, a'r hyn y mae angen canolbwyntio arno.

Gall unrhyw un ei ddefnyddio.

Mae'n adnodd defnyddiol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gefnogi asesiadau llesiant, a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gwblhau asesiadau anghenion poblogaeth.